

**Arolygiad Iechyd Meddwl /
Anabledd Dysgu
[Dirybudd]**

**Pastoral Cymru (Caerdydd)
Limited: Ysbyty Annibynnol Tŷ
Catrin**

4, 5 a 6 Mawrth 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	4
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau.....	9
	Safonau Craidd.....	9
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	19
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	21
6.	Y Camau Nesaf.....	22
	Atodiad A.....	23

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u penodi'n awdurdod cofrestru dros Gymru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial

- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau gydag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau er mwyn amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd

- Gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad iechyd meddwl ac anabledd dysgu dirybudd ag Ysbyty Tŷ Catrin, Caerdydd, gyda'r nos ar 4 Mawrth 2015 a thrwy'r dydd ar 5 a 6 Mawrth 2015.

Cofrestrwyd Ysbyty Annibynnol Tŷ Catrin ('Tŷ Catrin') am y tro cyntaf ym mis Hydref 2009 gan AGIC. Ar hyn o bryd, mae Tŷ Catrin wedi'i gofrestru i ddarparu gofal mewn pum ward ar gyfer hyd at 42 o gleifion sy'n oedolion ac sydd angen gofal a thriniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol, mewn amgylchedd diogelwch isel. Mae'r ysbyty hefyd wedi'i gofrestru ar gyfer tri chlaf sydd angen triniaeth mewn amgylchedd adsefydlu sydd dan glo. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth neu nyrsio (neu'r ddau) ar gyfer cyfanswm o 45 o bobl sy'n agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Pastoral Cymru (Caerdydd) Limited yw darparwr cofrestredig yr ysbyty.

Yn ystod yr arolygiad tri diwrnod, gwnaethom adolygu chwe ward, archwilio cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu amgylchedd y gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, dau adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Roedd ein hymweliad â Thŷ Catrin yn un boddhaol, lle y gwelwyd newidiadau ers ein hymweliad blaenorol ym mis Mai 2014. Rydym yn ddiolchgar i'r holl staff a chleifion a roddodd gymorth inni yn ystod yr arolygiad, ac rydym yn gwerthfawrogi didwylledd ac ymgysylltiad pawb a'n helpodd yn ystod yr arolygiad.

Yn y gyda'r nos ar noson gyntaf yr arolygiad (4 Mawrth 2015), nid oedd gan y nyrs â gofal am yr ysbyty ddigon o ddealltwriaeth na gwybodaeth i ymgymryd â'r rôl hon. Ni ellid dod o hyd i wybodaeth am y nifer gyfredol o gleifion yn yr ysbyty, lefelau arsylwi na gwybodaeth berthnasol arall wrth inni gyrraedd Tŷ Catrin. Roedd hefyd anawsterau ar noson gyntaf yr arolygiad ynglŷn â threfniadau ar alwad yr ysbyty, ac nid oedd yn glir ar unwaith pwy oedd ar alwad wrth inni gyrraedd.

Gwnaethom adolygu tair set o ddogfennau cynllunio gofal a thriniaeth. Roedd un o'r ffeiliau a welwyd wedi'i gwblhau yn drwyadl iawn. Gwnaethom leisio pryderon ynglŷn â rheoli pwysau un claf a oedd wedi rhoi cryn dipyn o bwysau ymlaen ers iddo gael ei dderbyn yn yr ysbyty. Nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth bod cynllun gofal a thriniaeth yn ffeil claf arall, ac nid oedd tystiolaeth bod un wedi dechrau.

Roedd angen adolygu defnydd staff asiantaeth. Gallai'r defnydd uchel o staff asiantaeth fod yn cael effaith negyddol ar ofal a thriniaeth cleifion.

Gwelsom rai cydberthnasau a rhyngweithiadau da rhwng staff a chleifion yn ystod ein harolygiad. Fodd bynnag, roedd tri o'r cleifion ar Ward y Rhath yn teimlo ar adegau nad oedd y staff yn siarad â nhw â pharch, ac fe'n hysbyswyd am honiadau o fwlio a dychrynu. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at y mater hwn a gofyn iddo ymchwilio i agweddau staff. Gwnaethom hefyd gofyn i'r mater hwn gael ei uwchgyfeirio at y broses Amddiffyn Oedolion sy'n Agored o Niwed i'w ymchwilio.

Nid oedd goruchwylio ffurfiol ar waith ar gyfer staff meddygol, er eu bod yn mynychu cyfarfodydd gyda chymheiriaid. Fodd bynnag, nid oes agwedd oruchwyliol ar y cyfarfodydd hyn. Gwnaethom hefyd ofyn am adolygiad o'r nifer o gleifion sydd dan ofal pob clinigydd cyfrifol, yn unol â chanllawiau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Gwnaeth cleifion gwyno wrthym am ddiffyg cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden, cymdeithasol ac adsefydlu.

Roedd trefniadau diogelwch yn cael eu rheoli'n dda, ac roedd digon o larymau diogelwch ar gyfer staff ac ymwelwyr. Ynglŷn â'r amgylchedd, roedd yr ysbyty

yn cael ei gynnal a'i gadw'n weddol dda ac yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Fodd bynnag, ar nifer o wardiau gwelsom fod problemau ynglŷn â'r cynnal a'r cadw'n gyffredinol. Gwelsom ddodrefn roedd eu clustogwaith wedi'i rwygo a'i ddifrodi. Roedd aroglau annifyr yn y ceginau, ac nid oedd dyddiadau ar y bwyd yn yr oergelloedd. Roedd y biniau yn nhai bach ac ystafelloedd ymolchi cleifion yn orlawn.

Dangosodd ein hadolygiad o ddogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl fod digon o feddygon Adran 12 ar gael. Roedd y gwaith papur ar gyfer absenoldebau Adran 17 wedi'i gwblhau i safon uchel, ac roedd yn cynnwys asesiadau risg ategol. Fodd bynnag, gwnaethom ofyn am adolygiad o rôl gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ar lefel ward i safon dderbyniol. Roedd y gweinyddwr yn gyfrifol am nifer fawr o gofnodion cleifion ar draws dau ysbyty, a chafwyd anhawster wrth reoli hyn.

Yn ôl staff a chleifion, roedd y lefel o fewnbwn seicolegol yn Nhŷ Catrin yn dda.

Nodwyd yn ystod ein hymweliad bod gan y bwrdd iechyd ffocws clir ar adsefydlu, a'i fod yn cynnig trefniadau byw i gleifion a oedd yn gefnogol ac wedi'u rheoli'n dda mewn fflat cam i lawr.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Lleolir Tŷ Catrin yng Nghaerdydd. Mae'r adeilad ar dair lefel, ac mae mynediad i'r ysbyty trwy dderbynfa. Mae'r dderbynfa'n llachar, ac mae mynediad i'r wardiau trwy system aerglo. Rhoddir larwm diogelwch i bob ymwelwr wrth iddo fynd i'r wardiau.

Mae Tŷ Catrin yn ysbyty diogelwch isel ac iddo 45 o welyau. Mae ganddo ddwy ward i ddynion, dwy ward i fenywod, ac un ward ddibyniaeth uchel. Mae cyfleuster cam i lawr wedi'i integreiddio ar ail lawr yr ysbyty. Mae gan Dŷ Catrin gyfleusterau hyfforddi ac ystafelloedd cynadledda, sy'n cael eu defnyddio gan staff clinigol a staff academaidd.

Ward Sophia

Lleolir Ward Sophia ar lawr cyntaf Tŷ Catrin, ac mae mynediad ati trwy ddrws a gedwir dan glo.

Roedd y ward yn darparu llety ar gyfer wyth menyw, ac ar adeg ein hymweliad roedd saith claf yn byw ar Ward Sophia. Roedd gan bob ystafell wely cleifion cawodydd en-suite, er nad oedd baddon ar y ward. Dywedodd rhai cleifion yr hoffent gael yr opsiwn o gael bath yn hytrach na chawod.

Roedd gan y lolfa ddigon o seddi er mwyn i'r holl gleifion eistedd, ac roedd set deledu wedi'i gosod ar y wal. Roedd corlan y nyrsys yn edrych dros y man hwn, a gellir cael mynediad at ystafelloedd eraill o'r brif lolfa.

Roedd man bwyta yn y lolfa ac ynddo ddigon o fyrddau a chadeiriau at ddefnydd y cleifion.

Roedd y ward yn arddangos y wybodaeth ofynnol yn unig ynglŷn â hawliau cleifion a gwybodaeth ar wahân i wasanaethau eiriolaeth. Roedd amserlen o weithgareddau wedi'i harddangos.

Roedd gan y ward fan lle y gellid cleifion gwneud a derbyn galwadau ffôn. Nid oedd hwn yn fan preifat, a dywedodd cleifion y gallai pobl eraill ar y ward glywed sgysiau preifat. Nid oedd ffonau symudol yn cael eu caniatáu ar y ward.

Nid oedd ysmygu yn cael ei ganiatáu ar y ward. Roedd cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio dyfeisiadau er mwyn rhoi'r gorau i ysmygu, fel e-sigaréts. Roedd gan gleifion fynediad at ardd. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i gleifion adael y ward er mwyn ei chyrraedd, gan ei bod wedi'i lleoli i lawr grisiau.

Roedd safon yr addurno trwy'r ward mewn cyflwr boddhaol. Fodd bynnag, roedd rhai eitemau o ddodrefn wedi'u treulio. Nodwyd bod y lefel o lendid yn foddhaol.

Argymhellion

Rhaid gwneud ymchwil i drefniadau er mwyn galluogi cleifion i gael bath.

Mae'n rhaid ystyried lleoliad y ffôn cymunedol er mwyn galluogi cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn mewn preifat.

Mae angen adolygu a newid dodrefn y ward yn ôl yr angen.

Ward Victoria

Lleolir Ward Victoria ar lawr cyntaf Tŷ Catrin, ac mae mynediad ati trwy ddrws a gedwir dan glo.

Roedd y ward yn darparu llety ar gyfer 11 o fenywod, ac ar adeg ein hymweliad roedd naw claf yn byw ar Ward Victoria. Roedd gan bob ystafell cleifion gyfleusterau en-suite, ac roedd baddon ar y ward, er ei fod mewn ystafell anniben a oedd yn cael ei defnyddio i storio bocsys. Nid oedd digon o le storio ar gyfer eiddo cleifion.

Roedd gan y lolfa ddigon o seddi er mwyn i'r holl gleifion eistedd, ac roedd set deledu wedi'i gosod ar y wal. Roedd corlan y nyrsys yn edrych dros y man hwn, a gellir cael mynediad at ystafelloedd eraill o'r brif lolfa.

Roedd gan y ward fan lle y gellid cleifion gwneud a derbyn galwadau ffôn. Yn flaenorol, roedd y ffôn mewn ystafell breifat, ond roedd wedi cael ei symud i fan mwy agored. Gallai hyn ei wneud yn anodd i gleifion wneud galwadau ffôn preifat.

Nid oedd ysmegu yn cael ei ganiatáu ar y ward. Roedd cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio dyfeisiadau er mwyn rhoi'r gorau i ysmegu, fel e-sigaréts. Roedd safon yr addurno trwy'r ward mewn cyflwr boddhaol. Roedd rhai cadeiriau ar y ward mewn cyflwr gwael a chanddynt glustogwaith wedi'i rwygo. Nodwyd bod y lefel o lendid yn foddhaol. Roedd gan gleifion fynediad at ardd, er na ellid ei chyrraedd yn syth o'r ward gan ei bod wedi'i lleoli ar lawr cyntaf yr adeilad.

Roedd y ward wedi arddangos gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryderon a gwneud cwynion. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos ynglŷn â gwasanaethau eiriolaeth. Roedd amserlen o weithgareddau wedi'i harddangos.

Argymhellion

Mae angen symud y bocsys o ystafell ymolchi'r ward ac eitemau eraill sy'n cael eu storio ynddi. Mae angen adolygu trefniadau storio ar y ward a dynodi manau storio eraill sy'n fwy addas.

Mae'n rhaid ystyried lleoliad y ffôn cymunedol er mwyn galluogi cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn mewn preifat.

Mae angen adolygu a newid dodrefn y ward yn ôl yr angen.

Ward Trelái

Lleolir Ward Trelái ar lawr cyntaf Tŷ Catrin, ac mae mynediad ati trwy ddrws a gedwir dan glo.

Mae'r ward yn darparu llety ar gyfer pedair menyw, ac ar adeg ein harolygiad roedd pedwar claf yn byw ar ward Trelái. Mae'r ward hon yn darparu gofal dibyniaeth uchel ar gyfer y cleifion. Roedd gan bob ystafell cleifion gyfleusterau en-suite.

Roedd gan y lolfa ddigon o seddi er mwyn i'r holl gleifion eistedd, ac roedd set deledu wedi'i gosod ar y wal. . Roedd safon yr addurno trwy'r ward mewn cyflwr boddhaol. Roedd y cadeiriau ac ymylon y carped wedi dechrau treulio. Roedd y safon o hylendid yn foddhaol; fodd bynnag, roedd diffyg manau storio ar y ward a hefyd nid oedd gegin.

Argymhellion

Mae angen adolygu a newid dodrefn y ward yn ôl yr angen.

Ward y Mynydd Bychan (ail lawr)

Lleolir Ward y Mynydd Bychan ar ail lawr Tŷ Catrin, ac mae mynediad ati trwy ddrws a gedwir o dan glo.

Roedd y ward yn darparu llety ar gyfer tri chlaf, ac ar adeg ein hymweliad roedd dau fenyw yn byw ar Ward y Mynydd Bychan. Roedd gan ystafelloedd i gleifion gyfleusterau en-suite. Mae hon yn ward adsefydlu cam i lawr sydd o dan glo.

Roedd y ward yn darparu manau llachar a glân ar gyfer cleifion, ac roedd yn efelychu fflat cam i lawr. Roedd y dodrefn ac addurniadau'r ward mewn cyflwr da, ac roedd cleifion yn gallu cael mynediad at y ward trwy system ffob.

Ward Bute

Lleolir Ward Bute ar lawr gwaelod Tŷ Catrin, ac mae mynediad ati trwy ddrws a gedwir o dan glo.

Roedd y ward yn darparu llety ar gyfer 11 o wrywod, ac ar adeg ein hymweliad roedd y ward yn llawn. Roedd gan bob ystafell i gleifion gawodydd en-suite.

Roedd gan y lolfa ddigon o seddi er mwyn i'r holl gleifion eistedd, ac roedd set deledu wedi'i gosod ar y wal. Roedd corlan y nyrsys yn edrych dros y man hwn.

Roedd yr addurniadau ar y ward mewn cyflwr gwael. Roedd y dodrefn yn dreuliedig a'r ward yn anniben. Nid oedd y gegin yn lân, ac roedd y biniau'n orlawn. Roedd arogl annifyr yn y gegin.

Roedd y ward wedi arddangos gwybodaeth ar gyfer cleifion ynglŷn â'u hawliau ac am wasanaethau eiriolaeth. Fodd bynnag, roedd y print ar y wybodaeth yn fach ac yn anodd ei ddarllen.

Nid oedd ysmegu yn cael ei ganiatáu ar y ward. Roedd cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio dyfeisiadau er mwyn rhoi'r gorau i ysmegu, fel e-sigaréts. Gallai cleifion gael mynediad at ardd yn syth o'r ward.

Argymhellion

Mae angen adolygu a newid dodrefn y ward yn ôl yr angen.

Mae angen cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cleifion mewn fformat clir sy'n hawdd ei ddarllen.

Mae angen adolygu hylendid yn y gegin.

Ward y Rhath

Lleolir Ward y Rhath ar lawr daear Tŷ Catrin, ac mae mynediad ati trwy ddrws a gedwir o dan glo.

Roedd y ward yn darparu llety ar gyfer wyth gwryw, ac ar adeg ein hymweliad roedd saith claf yn byw ar y ward. Roedd gan bob ystafell i gleifion gawodydd en-suite.

Roedd gan y lolfa ddigon o seddi er mwyn i'r holl gleifion eistedd, ac roedd set deledu wedi'i gosod ar y wal. Roedd corlan y nyrsys yn edrych dros y man hwn, a gellir cael mynediad at ystafelloedd eraill o'r brif lolfa.

Roedd man bwyta yn y lolfa ac ynddi ddigon o fyrddau a chadeiriau at ddefnydd y cleifion.

Roedd y ward wedi arddangos gwybodaeth ar gyfer cleifion ynglŷn â'u hawliau, ac roedd gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth ac amserlen o weithgareddau wedi'u harddangos.

Roedd gan y ward fan lle y gellid cleifion gwneud a derbyn galwadau ffôn. Nid oedd hwn yn fan preifat.

Nid oedd ysmygu yn cael ei ganiatáu ar y ward. Roedd cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio dyfeisiadau er mwyn rhoi'r gorau i ysmygu, fel e-sigaréts. Gallai cleifion gael mynediad at ardd o'r ward.

Roedd safon yr addurno trwy'r ward yn weddol. Roedd rhai eitemau o ddodrefn wedi dechrau treulio. Roedd y safon o lendid ar y ward yn foddhaol. Fodd bynnag, yn y manau cegin roedd biniau gorlawn ac aroglau annifyr.

Argymhellion

Mae'n rhaid ystyried lleoliad y ffôn cymunedol er mwyn galluogi cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn mewn preifat.

Mae angen adolygu a newid dodrefn y ward yn ôl yr angen.

Mae angen adolygu hylendid yn y gegin.

Diogelwch

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod lefelau staffio yn briodol ar gyfer y nifer o gleifion ar y wardiau. Fodd bynnag, dywedodd cleifion a staff wrthym fod angen mwy o staff er mwyn hwyluso rhagor o weithgareddau a chyfnodau o seibiant yn y gymuned. Dywedodd cleifion y gallai problemau ynglŷn â staffio olygu y gallai gweithgareddau a gwyliau gael eu canslo ar fyr rybudd.

Roedd gan staff ar bob ward larymau a fyddai'n rhybuddio aelodau eraill o staff pe bai argyfwng. Dywedodd staff fod yr ymateb i'r rhain yn gyflym. Fe'n hysbyswyd am un digwyddiad yn ystod yr ymweliad lle yr anafwyd aelod o staff yn ddifrifol wrth rwystro rhywun ar 25 Chwefror 2015. Roedd cryn amser cyn i'r larwm gael ei ateb, ac mae angen ymchwilio i'r mater hwn.

Ar adeg ein hymweliad gyda'r nos, roedd y trefniadau ar alwad yn wael. Nid oedd y nyrs â gofal a oedd yn gyfrifol am yr ysbyty'n gallu cysylltu â'r person ar alwad. Yn ogystal, nid oedd gan y nyrs â gofal ddigon o wybodaeth ar gael (er enghraifft, y nifer o gleifion ar bob ward, lefelau arsylwi ac ati). Gallai hyn fod wedi cael effaith sylweddol ar ddiogelwch cleifion a staff.

Argymhellion

Mae angen adolygu lefelau staffio er mwyn sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd i hwyluso gwyliau a gweithgareddau.

Mae angen adolygu'r trefniadau ar alwad ac ymchwilio i'r amgylchiadau ar noson ein hymweliad gyda'r nos.

Mae angen i'r nyrs â gofal dderbyn digon o wybodaeth er mwyn iddi ymgymryd â'r rôl.

Mae angen cynnal adolygiad o'r digwyddiad ar 25 Chwefror 2015, a hysbysu AGIC am ganlyniadau'r ymchwiliad.

Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth mwyafrif y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gweithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol. Cynhelir cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol bob wythnos, a chaiff pob disgyblaeth ei chynrychioli, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol, meddygon a nyrsys. Siaradodd staff am y parch cilyddol roedd wedi'i ddatblygu gan aelodau o'r tîm.

Dywedodd y staff wrthym y ceisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan bob disgyblaeth yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan ei gilydd.

Ar adeg ein hymweliad, roedd gan yr ysbyty ddau seiciatrydd ymgynghorol. Roedd gan y ddau seiciatrydd llwyth achosion o 21 o gleifion yr un. Roedd y llwyth achosion uchel yn golygu nad oedd amser ar gyfer arferion adfyfiriol, hyfforddiant na goruchwyliaeth. Mae angen i'r ysbyty adolygu'r sefyllfa hon, ac ystyried ffyrdd o leihau llwyth achosion y seiciatryddion ymgynghorol.

Roedd yr ysbyty'n bodloni ei lefelau staffio ar bob un o'r wardiau. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, roedd y defnydd o staff banc a staff asiantaeth yn uchel. Roedd y defnydd uchel hwn o staff banc a staff asiantaeth yn cael effaith ar ddilyniant gofal ar gyfer cleifion, gan fod trosiant staff yn ymddangos yn uchel ymhlith cleifion ac aelodau o staff. Dywedodd rhai cleifion ei fod yn anodd sefydlu perthynas therapiwtig â staff banc a staff

asiantaeth, gan nad oeddent yn gwybod am faint y byddent yn gweithio ar y ward, ac roedd hyn yn creu ansicrwydd.

Cynhelir cyfarfodydd pontio rhwng y sifftiau yn yr ysbyty, lle mae nodiadau o'r sifft flaenorol yn cael eu trosglwyddo i staff y sifft nesaf.

Argymhellion

Dylid cynnal adolygiad o lwyth achosion y ddau seiciatrydd ymgynghorol. Mae canllawiau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn argymhell y dylai llwyth achosion seiciatrydd ymgynghorol fod rhwng 12 a 16 o gleifion.

Adolygu'r defnydd o staff banc a staff asiantaeth.

Preifatrwydd ac urddas

Cafwyd adborth cymysg gan gleifion ynglŷn â phreifatrwydd ac urddas, a'r rhan fwyaf o gleifion yn dweud nad oes ganddynt gwynion yn hyn o beth. Dywedodd rhai cleifion, yn enwedig ar Ward y Rhath, nad oedd staff bob amser yn parchu eu preifatrwydd ac urddas trwy guro ar ddrws eu hystafell wely cyn mynd i mewn, nac yn gadael digon o amser iddynt ateb cyn mynd i mewn. Cadarnhaodd bron i bob claf y siaradwyd â nhw fod ganddynt nyrs benodedig, a'u bod yn gallu siarad â nhw mewn preifat am unrhyw broblemau.

Roedd cleifion yn gallu gwneud galwadau ffôn yn Nhŷ Catrin; fodd bynnag, ar nifer o wardiau dywedodd cleifion fod lleoliad y ffôn yn y manau cymunedol yn cael effaith ar y gallu i gael sgysiau preifat. Roedd ystafelloedd ymwelwyr ar gael er mwyn i gleifion gwrdd â theulu a ffrindiau.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, ac roedd yn gallu storio ei eiddo ei hun. Dywedodd rhai cleifion am ddiffyg lle storio yn eu hystafelloedd. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion fod staff yn eu trin â pharch, a gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion.

Tynnwyd sylw at rai problemau ynglŷn ag agweddau staff. Roedd rhai cleifion ar Ward y Rhath yn teimlo nad oedd staff yn siarad â nhw â pharch ar adegau, ac fe'n hysbyswyd am honiadau o fwlio a dychrynu. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at y mater hwn a gofyn iddo ymchwilio i agweddau staff.

Ar Ward y Rhath, gellid gweld gwybodaeth gyfrinachol cleifion ynglŷn â'u statws cadw trwy ffenest corlan y nyrsys, o'r lolfa gymunedol. Gallai hyn amharchu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Argymhellion

Mae angen i aelodau o staff ystyried preifatrwydd ac urddas cleifion wrth fynd i'w hystafelloedd gwely.

Dylai Tŷ Catrin adolygu lleoliad y ffonau ar bob ward er mwyn galluogi cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn mewn preifat.

Rhaid i Dŷ Catrin ymchwilio i honiadau o gam-drin a bwlio.

Mae angen rhoi sylw i'r ffaith y gellir gweld gwybodaeth gyfrinachol cleifion ar Ward y Rhath.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Dyweddodd cleifion eu bod yn ddiflas. Dywedwyd ar rai wardiau nad oedd digon o gyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig, hamddenol ac adsefydlu. Dywedwyd bod gweithgareddau a gwyliau Adran 17 yn aml yn cael eu canslo ar fyr rybudd oherwydd niferoedd staffio.

Yn ôl staff a chleifion, roedd y lefel o fewnbwn seicolegol yn Nhŷ Catrin yn dda.

Roedd arsylwadau corfforol ar gleifion yn cael eu cynnal gan nyrs bractis ar y safle, ac roedd gan gleifion fynediad at feddyg teulu a gwasanaethau gofal iechyd eraill yn ôl yr angen.

Argymhelliad

Mae angen adolygiad o lefelau o staffio er mwyn hwyluso therapïau, gweithgareddau a gwyliau ar gyfer cleifion.

Bwyd a maeth

Cafwyd ymateb cymysg mewn trafodaethau â chleifion a staff ynglŷn â'r bwyd a oedd yn cael ei weini yn Nhŷ Catrin. Roedd nifer o gleifion y gwnaethom siarad â nhw'n canmol y bwyd a oedd ar gael yn yr ysbyty. Roedd cinio am 12 p.m. a the am 5 p.m. Dywedwyd wrthym nad oedd bwyd ar gael ar ôl 5 p.m., pe na bai'r claf yn ei baratoi.

Roedd rhai cleifion yn dweud nad oedd y bwyd yn ddigonol o ran blas a maint y gyfran, a bod y bwyd yn ddi-flas. Dywedodd rhai cleifion nad oeddent yn cael dewis o fwyd. Dywedodd cleifion hefyd y byddai'n well ganddynt brynu

eu bwyd eu hunain lle y bo hynny'n bosibl. Dywedodd cleifion nad oedd yr oergelloedd yn y ceginau'n ddigon mawr er mwyn iddynt storio eu bwyd eu hunain, pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Ar Ward y Rhath a Ward Bute, roedd bwyd yn yr oergelloedd nad oedd dyddiadau na labeli arnynt. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl dweud am faint roedd y bwyd wedi bod yn yr oergell, nac a oedd y dyddiad ar gyfer ei ddefnyddio wedi mynd heibio. Roedd yr arogl yn y ddwy gegin yn annifyr.

Argymhellion

Mae angen adolygu darpariaeth bwyd ar gyfer cleifion yn Nhŷ Catrin er mwyn sicrhau bod y blas a maint y gyfran yn ddigonol.

Mae angen rhoi dyddiadau a labeli ar y bwyd sy'n cael ei adael mewn oergelloedd ar bob ward.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu deg o ffeiliau staff, gan nodi mor drefnus oeddent; roedd hyn yn sicrhau ei fod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Roedd ym mhob ffeil dabl cynnwys â'r wybodaeth gywir wedi'i ffeilio yn yr adran briodol. Roedd rhestr wirio ynghlwm o fewn y clawr a oedd yn rhoi trosolwg o statws y gwiriadau cyflogaeth gorfodol, gan gynnwys geirdaon, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofrestriad proffesiynol, holiadur meddygol ac ati. Nid oedd y wybodaeth wedi'i dyblygu o fewn y ffeiliau.

Roedd y ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflogaeth rhywun, gan gynnwys geirdaon, nodiadau cyfweliad, swydd-ddisgrifiad, ffurflen gais, llythyr cynnig ac ati.

Gwnaethom nodi a chymeradwyo'r arfer da wedi'i fabwysiadu gan Dŷ Catrin ar gyfer adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod gwiriad annibynnol gan yr ysbyty sy'n helpu i ehangu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad ei staff.

Roedd profforma a system arfarnu ar waith; fodd bynnag, dim ond dwy o'r deg ffeil a adolygwyd a oedd yn cynnwys arfarniad wedi'i gwblhau. Roedd y wybodaeth a roddwyd ynglŷn ag arfarniadau'n dangos bod y dyddiad adnewyddu ar gyfer arfarniadau'r rhan fwyaf o staff wedi mynd heibio. Dangosodd sgysiau â staff nad oedd nifer o arfarniadau na sesiynau goruchwylio wedi cael eu cynnal.

Gwelsom nad oedd pob ffurflen gyfweld wedi'i sgorio a'i lofnodi.

Roedd llawer o ddiddordeb mewn hyfforddiant gorfodol/statudol. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad o'r cofnodion hyfforddi fod angen hyfforddiant

mewn rheoli a rhwystro (MAYBO). Yn ogystal, gwelsom nad oedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar Ddeddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 nac ar y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

Argymhellion

Mae angen system reolaidd a strwythuredig er mwyn i staff gael eu goruchwyllo a'u harfarnu.

Rhaid i'r holl staff dderbyn hyfforddiant gorfodol cyfredol i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp cleifion.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol saith o'r cleifion wedi'u cadw, a oedd yn derbyn gofal yn Nhŷ Catrin ar adeg ein hymweliad ar draws tair ward. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Roedd gwaith papur ar gyfer gwyliau Adran 17 wedi'i gwblhau'n dda iawn, ac roedd asesiadau risg a chynlluniau cyflawn rhag ofn bod problemau tra bod cleifion yn absennol.

Gwnaethom weld problemau mewn nifer o feysydd gan gynnwys:

- Roedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gyfrifol am 67 o gleifion ar draws dau safle. Fe'n hysbyswyd bod y baich gwaith yn drwm, a'r rhan fwyaf o gleifion yn cael mynediad at dribiwnlysoedd a gwrandawriadau rheolwr. Oherwydd y baich gwaith trwm, cafwyd ar ddeall nad oedd y gweinyddwr yn gallu gweithio'n agos gyda staff ar lefel ward ynglŷn â'u gwybodaeth am y Ddeddf, unrhyw hyfforddiant a oedd ei angen arnynt, nac wrth gynnal papurau cyfreithiol yn ffeiliau ward cleifion unigol.
- Roedd y gwaith papur cyfreithiol a oedd yn cael ei gadw ar lefel ward yn anhrefnus ac yn anghyflawn. Roedd yn anodd dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r gwaith papur a oedd i'w adolygu, ac ni welsom dystiolaeth bod hawliau cleifion o dan Adran 132 y Ddeddf yn cael eu cyflwyno iddynt.
- Nid oedd ffeiliau dogfennu unigol y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pob claf unigol. O'r herwydd, roedd dod o hyd i wybodaeth yn anodd.

Argymhellion

Mae angen adolygu rôl gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl, ynghyd â'r baich gwaith o 67 o gleifion.

Mae angen cwblhau gwaith papur cyfreithiol ar lefel ward a'i drefnu'n well.

Mae angen cofnodi trafodaethau â chleifion ynglŷn â'u hawliau dan Adran 132 y Ddeddf yn nodiadau cleifion.

Mae angen adolygu trefn a strwythur y dogfennau ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl, gan ystyried rhoi ffeiliau unigol i gleifion.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth yn Nhŷ Catrin a nodi'r canlynol:

- Nid oedd cynllun gofal a thriniaeth ar waith ar gyfer un claf ac nid oedd tystiolaeth bod un wedi cael ei ddechrau.
- Roedd pryderon sylweddol ynglŷn â rheoli pwysau yng nghynllun gofal a thriniaeth un claf a archwiliwyd gennym.
- Gwelwyd bod y cynlluniau gofal ar Ward y Rhath wedi'u cwblhau'n gynhwysfawr.

Argymhellion

Mae angen mynd i'r afael â'r holl broblemau ynglŷn â chynlluniau gofal a thriniaeth, yn benodol i sicrhau bod dyddiad arnynt, eu bod ar waith ar gyfer pob claf, a'u bod yn rhoi digon o wybodaeth sy'n rhoi sylw i bob un o anghenion y cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Dŷ Catrin gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Nhŷ Catrin yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

.

Cynllun Rhoi Sicrwydd ar ôl Arolygiad AGIC 4, 5 a 6 Mawrth 2015

[Tŷ Catrin] – Partneriaethau mewn Gofal

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]										
Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
	<i>Y mater penodol a nodwyd sy'n ymwneud â'r thema</i>		<i>Esbonio'r camau gweithredu y dylid eu cymryd i ddatrys y mater</i>	<i>Disgrifiwch gynnydd y camau gweithredu a gymerwyd ynghyd â chadarnhad bod hyn wedi mynd i'r afael â'r mater</i>	<i>Disgrifiwch y dystiolaeth a ddarparwyd i ddangos bod y mater wedi'i ddatrys a bod y camau gweithredu wedi'u cyflenwi</i>	<i>Y sawl sy'n gyfrifol am gwblhau'r gweithredoedd</i>	<i>Llinell amser ar gyfer cwblhau'r gweithredoedd</i>	<i>Mesur newid a gwelliant</i>	<i>Adolygiad a chymeradwyaeth gan swyddog gweithredol o'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac asesiad o p'un a yw pob cam gweithredu wedi mynd i'r afael â'r materion er mwyn atal iddynt ddigwydd eto</i>	<i>Statws COG Gwyrdd = Cwblhawyd Oren = Ar y trywydd iawn Coch = Ddim ar y trywydd iawn/heb ei gwblhau</i>
26 (2) (a) a (b)	Mae angen mynd i'r afael â nifer o broblemau cynnal a chadw sy'n ymwneud â'r dodrefn a'r carpedi mewn mannau cymunol cleifion.	Trafod manylion o'r gwariant sydd ei angen er mwyn unioni'r sefyllfa, a'r angen i brynu dodrefn a charpedi newydd, â'r person â gofal perthnasol ar 27 Mai 2015.	Cytuno i raglen adnewyddu ac atgyweirio.	Cwrddwyd â'r person â gofal ar 27 Mai 2015 a nodwyd yr holl ddodrefn a'r carpedi/llawr sydd angen cael eu newid.		Rheolwr yr ysbyty	3 mis			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/ Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
6 (3) a 20 (10) (a)	Mae angen adolygu lefelau staffio er mwyn sicrhau bod digon o therapiau a gweithgareddau cleifion yn cael eu hwyluso.	Caiff lefelau staffio eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd cynllunio wythnosol, sy'n cael eu mynychu gan bob aelod o'r tîm amlbroffesiynol. Mae rheolwyr y ward yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ac maent yn gallu trafod eu gofynion staffio yn y fforwm hwn. Caiff rhaglenni gweithgareddau cleifion eu trafod yn ystod pob cyfarfod tîm clinigol, a fydd yn amlygu p'un a yw diffyg staff yn atal lefel resymol	Parhau i drafod lefelau staffio'n ystod cyfarfodydd cynllunio.	Mae hyn yn broses barhaus. Wrth adolygu cofnodion y cyfarfod cynllunio, gwelsom fod cyfle inni dystio cynnwys y deialog yn llawn.	Cofnodion y cyfarfodydd cynllunio	Rheolwr yr ysbyty	Parhaus			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]										
Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
		a/neu benodol o weithgareddau.								
20 (1) (a)	Mae angen adolygu'r trefniadau ar alwad ar gyfer yr ysbyty.	Mae'r trefniadau ar alwad wedi cael eu hadolygu. Roedd yr aelod o staff a bennwyd i fod ar alwad ar 4 Mawrth yn absennol. Roedd hyn yn gamgymeriad unigryw ond un difrifol.	Sicrhau bod pob aelod o staff ar alwad yn anfon e-bost i gydnabod ei fod wedi derbyn y cylchrestr ar alwad, a'i fod ar gael ar gyfer y dyddiadau a neilltuir.			Rheolwr yr ysbyty	Ar unwaith ac yn barhaus			
20 (2) (a)	Mae angen system reolaidd a strwythuredig i'r staff dderbyn goruchwyliaeth.	Mae rheolwr yr ysbyty wedi gofyn i adnoddau dynol ddarparu datganiad sefyllfa mewn perthynas â goruchwyliaeth wythnosol, er mwyn cynnal ffocws ar gyflenwi goruchwyliaeth i'r holl staff.	Trafod y datganiad sefyllfa bob wythnos â rheolwyr y ward a phenaethiaid adrannau i sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chyflenwi'n ddibynadwy.	Trafodwyd y broses ag adnoddau dynol a chytunwyd â hi.	Cofnodion datblygu'r cyfarfodydd gyda rheolwyr y ward a chyfarfodydd wythnosol y tîm rheoli.	Rheolwr yr ysbyty	Ar unwaith ac yn barhaus			
20 (2) (a)	Rhaid i'r holl staff dderbyn	Mae rheolwr yr ysbyty wedi gofyn	Adolygu cydymffurfedd	Trafodwyd y broses ag	Cofnodion datblygu	Rheolwr yr ysbyty	Ar unwaith ac yn barhaus			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/ Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
	hyfforddiant gorfodol cyfredol i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y grŵp cleifion.	am adroddiad misol gan adnoddau dynol ynghylch cydymffurfedd â'r holl hyfforddiant statudol/gofynnol i sicrhau cydymffurfedd.	yn fisol.	adnoddau dynol a chytunwyd â hi.	cyfarfodydd wythnosol y tîm rheoli.					
19 (1) (a) (b)	Mae angen dadansoddiad o'r digwyddiad ar 25 Chwefror 2015 er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â pheryglon.	Cynhaliwyd dadansoddiad o'r digwyddiad. Roedd y claf wedi gwneud cwyn ynghylch aelod o staff a oedd yn gweithio nos y digwyddiad, ac roedd hon yn destun cyfarfod strategaeth amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, a oedd yn cynnwys adolygu priodolrwydd y lleoliad a'r	Rhoi copïau o'r adroddiadau asesu o Glinig Caswell i AGIC.		Rhoi copïau o'r adroddiadau asesu o Glinig Caswell i AGIC.	Rheolwr yr ysbyty	2 Mehefin 2015			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
		rheolwyr. Mae'r claf wedi cael ei asesu gan seiciatrig fforensig ymgynghorol o Glinig Caswell ar ddau achlysur, ac wrth gynnal y ddau asesiad roedd o'r farn nad oedd y claf wedi'i roi'n amhriodol mewn amodau o ddiogelwch isel. Gofynnodd yr asesiad gan Glinig Caswell i'r tîm clinigol ystyried cyflymu'r broses o ryddhau'r claf, y mae'r tîm yn ceisio'i chyflawni erbyn hyn.								
19 (2) (c) (i)	Mae angen mynd i'r afael â'r holl faterion ynghylch cynlluniau gofal	Erbyn hyn, wrth i bob claf gael ei dderbyn, mae cydgysylltydd gofal mewnol yn	Mae angen archwiliad cyfnodol i sicrhau bod dogfennau			Rheolwr yr ysbyty	1 mis		Cynnal archwiliad eto cyn diwedd mis Mehefin 2015.	

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
	a thriniaeth.	cael ei neilltuo, y mae'n angenrheidiol iddo ddatblygu cynllun gofal a thriniaeth gyda'r claf, a chynnal y cynllun hwnnw trwy gydol y derbyniad.	ynghylch cynlluniau gofal a thriniaeth yn unol â gofynion Mesur Cymru. Cynnal archwiliad eto cyn diwedd mis Mehefin 2015.							
20 (2) (a)	Adran 132, nid oedd hawliau'n cael eu tystio mewn ffeiliau a adolygwyd.		Rheolwr y Ddeddf lechyd Meddwl i sefydlu system i sicrhau bod hawliau'n cael eu darllen bob tri mis, a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei chyflwyno. Gall rheolwr y Ddeddf lechyd Meddwl ddefnyddio'r ysgrifenyddion meddygol ar gyfer cymorth gweinyddol i	Rheolwr y Ddeddf lechyd Meddwl i ddangos tystiolaeth bod hawliau'r cleifion yn cael eu darllen o leiaf bob tri mis.		Rheolwr y Ddeddf lechyd Meddwl	Dechrau'r broses ar unwaith. Bydd y dystiolaeth gyntaf i ddangos bod hawliau'r cleifion yn cael eu darllen ar gael ar 8 Mehefin 2015.			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
			gyflawni hyn.							
15 (1) (a)(b) (c) a 19 (1) (a) (b)	Roedd rôl gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn anodd oherwydd gwaith baich 67 o gleifion.		Rheolwr yr ysbyty i drafod hyn â'r cyfarwyddwr gweithredol ardal.			Rheolwr yr ysbyty	1 mis			
26 (2) (a)	Mae angen adolygu'r glendid yn y ceginau. Mae angen dyddio a labelu bwyd sy'n cael	Rydym wedi penodi goruchwylydd cadw tŷ i oruchwylio'r amserlenni glanhau a monitro perfformiad y staff cadw tŷ.	Cytunwyd ar 27 Mai 2015 â'r person â gofal bod angen adnewyddu'r ceginau. Bydd yr oergelloedd yn cael eu gwirio'n ddyddiol gan y			Goruchwylydd cadw tŷ	Cynnal adolygiad mewn pythefnos			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
	ei adael mewn oergelloedd ar bob ward.		staff cadw tŷ, a gwaredir ar unrhyw fwyd nad yw wedi cael ei labelu. Sicrhau bod labeli ar gael ar gyfer staff y ward i'w defnyddio, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y grŵp staff ynghylch y gofyn hwn.							
15 (1) (b)	Mae angen mynd i'r afael â'r ffaith bod gwybodaeth gyfrinachol yn gallu cael ei gweld ar ward y Rhath.	Mae'r staff wedi cael eu cynghori bod angen sicrhau nad yw gwybodaeth gyfrinachol yn gallu cael ei gweld pan fydd pobl yn edrych trwy'r ffenestr i'r swyddfa.				Rheolwyr y ward	Ar unwaith ac yn barhaus			
20 (1) (a)	Mae'n rhaid adolygu'r lefelau	Fel uchod				Rheolwr yr ysbyty				

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
	staffio i sicrhau bod niferoedd digonol ar ddyletswydd i hwyluso gwyliau a gweithgareddau.									
20 (2) (a)	<p>Mae angen adolygu'r trefniadau ar alwad ac archwilio amgylchiadau'r noson o'r ymweliad.</p> <p>Mae angen gadael digon o wybodaeth i'r nyrs â gofal ymgymryd â'r swydd.</p>	<p>Fel uchod o ran y trefniadau ar alwad.</p> <p>Mae'r wybodaeth y gwnaeth AGIC ofyn amdani ar y noson iddynt gyrraedd, mewn perthynas â niferoedd cleifion a lefelau arsylwi, i gyd ar gael i bob nyrs gofrestredig ar safle trwy</p>	Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i'r uwch-nyrs ar safle.			Rheolwr yr ysbyty	1 mis			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/ Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
		<p>adroddiadau trosglwyddo. Byddwn yn adolygu'r pecyn wybodaeth sydd ar gael i'r uwch-nyrs ar safle, ac yn ei chyfeirio at y wybodaeth hon.</p>								
19 (1) (a) (b)	<p>Adolygu llwyth achos y seiciatryddion ymgynghorol. Mae canllawiau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn datgan 12 i 16 o gleifion.</p>	<p>Nid yw baich gwaith y ddau seiciatrydd ymgynghorol yn ormodol. Mae safon y coleg brenhinol o faich gwaith o 15 yn cyfeirio at y GIG, lle mae gan seiciatryddion fforensig ymgynghorol waith cleifion mewnol, yn ogystal â sesiynau cleifion allanol a sesiynau yn y</p>	<p>Adolygwyd y baich gwaith, a bydd y coleg brenhinol yn cyfrannu'n fwy.</p>							

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
		carchar.								
15 (1) (a) (b) 26 (2) (c)	Adolygu lleoliad y ffonau talu ar bob ward i alluogi cleifion i dderbyn sgysrsiau teleffon preifat.	Archwilio'r opsiwn o ddefnyddio'r hen ystafelloedd ysmegu i roi teleffon ynddynt, y gellid ei blygio i mewn ac allan, i ganiatáu i'r lle gael ei ddefnyddio ar gyfer therapi yn ogystal â theleffon.				Rheolwr yr ysbyty	2 fis			
	Tŷ Catrin i archwilio honiadau o gam-drin a bwlio ar ward y Rhath, ac adrodd i'r tîm amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.	Trafododd y rheolwr cofrestredig y materion â'r tîm amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, a chytunodd â dull archwilio. Roedd manylion y pryderon a adroddwyd yn cynnwys: Nid oedd y staff yn hyrwyddo	Pob aelod o staff i dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig o'r angen i gnocio ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion cyn mynd i mewn.				1 mis			

Cynllun Rhoi Sicrwydd fersiwn[01/06/15]:[Tŷ Catrin]

Cyf	Mater	Sylwadau	Cam gweithredu	Cynnydd/Sicrwydd	Tystiolaeth	Arweinydd	Llinell amser	Canlyniad	Monitro'r cynnydd	Cam gweithredu COG (Coch, Oren, Gwyrdd)
		neu'n diogelu urddas a pharch ar y wardiau. Leisiwyd pedwar claf gwrywaidd pryderon tebyg. Y staff yn cnocio ac yn mynd i mewn i ystafelloedd cyn aros am ymateb. Cwynion am agweddau staff gwael.								
	Mae angen i aelodau o'r staff ystyried preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth fynd i mewn i ystafelloedd gwely'r cleifion.	Atgoffa'r staff i ganiatáu amser i'r cleifion ymateb lle bo'n angenrheidiol cnocio a mynd i mewn i ystafelloedd gwely'r cleifion.	Rheolwr yr ysbyty i anfon memorandwm at staff sydd ar y ward.			Rheolwr yr ysbyty	1 mis			